
Wicipedia
Y Gwyddoniadur Rhydd

# Gerallt Lloyd Owen

Bardd a aned yn "Nhŷ Uchaf", fferm ym mhlwyf Llandderfel Sarnau, Sir Feirionnydd (de Gwynedd heddiw) oedd **Gerallt Lloyd Owen** (6 Tachwedd 1944 – 15 Gorffennaf 2014).[1][2] Roedd yn un o brif feistri'r gynghanedd ac yn feuryn ymryson barddol Radio Cymru, *Talwrn y Beirdd*.[3]

| Gerallt Lloyd Owen | |
|---|---|
| Ganwyd | 6 Tachwedd 1944<br>Llandderfel |
| Bu farw | 15 Gorffennaf 2014<br>Ysbyty Gwynedd |
| Dinasyddiaeth | Cymru |
| Galwedigaeth | ysgrifennwr, bardd |
| Plant | Mirain Llwyd Owen |
| Perthnasau | Geraint Lloyd Owen (brawd) |




## Bywyd cynnar

Gerallt oedd yr ail fab i Henry Lloyd Owen (1906-1982), amaethwr a Swyddog Pla Cyngor Sir Feirionnydd ac yna Gwynedd, a Jane Ellen (Jin, 1905-1989), athrawes a fu hefyd yn cadw siop a llythyrdy'r Sarnau wedi i'r teulu symud yno i fyw i'w hen gartref hi, "Broncaereini", yn 1945 pan benodwyd Henry i'w swydd gyda Chyngor Sir Feirionnydd.

Llwyd o'r Bryn a gyflwynodd y gynghanedd iddo, ei athro barddol cyntaf, a gallai Gerallt gyfansoddi englyn cywir yn ddeuddeg oed. Yna aeth at Ifan Rowlands y Gistfaen, Llandderfel i wella'i grefft.

Derbyniodd Gerallt ei addysg yn Ysgol Tŷ Tan Domen. Tra yn y chweched dosbarth dyrchafwyd y tad a symudodd y teulu i Gaernarfon, ond arhosodd Gerallt gyda'i fodryb yn y Sarnau i adolygu ar gyfer ei arholiadau 'lefel A', ond gwell ganddo astudio'r gynghanedd a darllen barddoniaeth ac ni chafodd y graddau angenrheidiol i fynd i'r brifysgol ac felly aeth i Goleg y Normal, Bangor lle derbyniodd Dystysgrif Athro yn 1966.[3] Enillodd Y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Treuliodd gyfnod o bum mlynedd fel athro: Ysgol Gynradd, Ysgol Glyndŵr (yr ysgol breifat Gymraeg a sefydlwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan y cenedlaetholwr brwd Trefor Morgan) ac Ysgol Gymraeg y Betws. Bu'n ysgrifennu comics i blant, gan gynnwys *Llinos* ac *Yr Hebog*[4]. Sefydlodd Wasg Gwynedd ym 1972. Yn 1972 hefyd y priododd ag Alwena Jones o Ddeiniolen gan fyw yn Llandwrog, a chawsant dri o blant: Mirain, Bedwyr a Nest.

Bu'n rhan o'r ffilm *Steddfod! 'Steddfod!* (1989).

# Ei waith llenyddol



Wrth ei waith dyddiol yn Nantperis yn argraffu'r *Hebog*.

Er i'w gyfrol gyntaf, *Ugain Oed a'i Ganiadau* (Argraffty'r M.C., Caernarfon, 1966) gael ei gyhoeddi ym 1966, ni ddaeth yn ffigwr amlwg nes iddo gyhoeddi *Cerddi'r Cywilydd* ym 1972.[5]

Nodweddir ei farddoniaeth gan ymdeimlad cryf am Gymreictod a phwyslais ar etifeddiaeth y Cymry a'r angen i'w hamddiffyn. Gwelir hyn yn arbennig o eglur mewn cerddi fel yr awdl *Cilmeri* , am dranc Llywelyn ap Gruffudd, a'r gerdd *Fy Ngwlad* (*Cerddi'r Cywilydd*) am yr arwisgiad yng Nghaernarfon yn 1969 sy'n agor efo'r llinellau cofiadwy,

> Wylit, wylit, Lywelyn,
> Wylit waed pe gwelit hyn.
> Ein calon gan estron ŵr,
> Ein coron gan goncwerwr,
> A gwerin o ffafrgarwyr
> Llariaidd eu gwên lle'r oedd gwŷr.

Ond mae gan ei awen agwedd bersonol hefyd, yn ei gerddi am gyfeillion a pherthnasau, a'i gariad amlwg at ei fro. Mae'n medru bod yn ffraeth yn ogystal, er enghraifft yn ei gerdd *Trafferth mewn siop* (yn y gyfrol *Cilmeri*) am gael gwrthod talu â siec yn y Gymraeg yn siop Marks and Spencers, Llandudno, sy'n adleisio cerdd adnabyddus Dafydd ap Gwilym *Trafferth mewn Tafarn*.

Cyhoeddodd hunangofiant ym 1999 dan y teitl *Fy Nghawl Fy Hun*. Golygodd gylchgrawn y Coleg Normal (Y Normalydd), sawl cyfrol yn y gyfres *Talwrn y Beirdd*, a bu'n gyd-olygydd y cylchgrawn *Barddas* am gyfnod.

Enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dwyfor 1975 gyda'i awdl *Yr Afon* ac yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abertawe 1982 gydai' awdl *Cilmeri*.

Dymuniad y teulu oedd bod rhoddion er cof am Gerallt i'w gyfrannu i ymgyrch ‘Ie’ yr Alban.[6]

# Llyfryddiaeth

Gwasg Gwynedd gyhoeddodd ei ddwy gyfrol bwysicaf o farddoniaeth: *Cerddi'r Cywilydd* yn 1972 a *Cilmeri a Cherddi Eraill* yn 1991, a hefyd ei hunangofiant *Fy Nghawl Fy Hun* yn 1999. Cafwyd 4 argraffiad o *Cerddi'r Cywilydd* ac enillodd *Cilmeri a Cherddi Eraill* wobr Llyfr y Flwyddyn, 1992.


- *Ugain Oed a'i Ganiadau* (1966)
- *Cerddi'r Cywilydd* (Gwasg Gwynedd, 1972)
- *Cilmeri a cherddi eraill* (Gwasg Gwynedd, 1991)
- *Y Gân Olaf* (Barddas, 2015)

### Hunangofiant

- *Fy Nghawl Fy Hun* (Gwasg Gwynedd, 1999)


## Oriel





















## Cyfeiriadau


1. **(Saesneg)** Stephens, Meic (11 Awst 2014). Gerallt Lloyd Owen: Renowned Welsh poet (http://www.independent.co.uk/news/obituaries/gerallt-lloyd-owen-renowned-welsh-poet-9662458.html). *The Independent*. Adalwyd ar 31 Awst 2014.
2. **(Saesneg)** Gerallt Lloyd Owen obituary (http://www.telegraph.co.uk/news/obituaries/11019047/Gerallt-Lloyd-Owen-obituary.html). *The Daily Telegraph* (7 Awst 2014). Adalwyd ar 31 Awst 2014.
3. "Gwefan yr Academi" (https://web.archive.org/web/20080704214832/http://www.academi.org/rhestr-o-awduron/i/129635/). Archifwyd o'r gwreiddiol (http://www.academi.org/rhestr-o-awduron/i/129635/) ar 2008-07-04. Cyrchwyd 2010-07-16.
4. "Comics Cymraeg" (https://www.bbc.com/cymrufyw/36341497). *BBC Cymru Fyw*. 2016-05-28. Cyrchwyd 2021-04-15.
5. Gweler y Bywgraffiadur Cymreig Arlein;] adalwyd 29 Medi 2016.
6. Rhoddion er cof am Gerallt i ymgyrch 'Ie' yr Alban (http://www.golwg360.com/newyddion/cymru/154632-rhoddion-er-cof-am-gerallt-i-ymgyrch-ie-yr-alban/). Golwg360 (19 Gorffennaf 2014). Adalwyd ar 31 Awst 2014.


| | |
|---|---|
| **Awdurdod** | WorldCat (https://www.worldcat.org/identities/lccn-nb2005-010091) · YBC: Y Bywgraffiadur Cymreig (https://bywgraffiadur.cymru/article/c11-OWEN-LLO-1944) · VIAF: 16744082 (https://viaf.org/viaf/16744082) · LCCN: nb2005010091 (http://id.loc.gov/authorities/names/nb2005010091) · ISNI: 0000 0000 4288 7325 (http://isni.org/0000000042887325) · SUDOC: 19713095X (http://www.idref.fr/19713095X) · ODNB: |

Bywgraffiadur Cenedlaethol Geiriadur Rhydychen (https://doi.org/10.1093/ref:odnb/109019)
(Mynediad llyfrgelloedd cyhoeddus (http://global.oup.com/oxforddnb/info/freeodnb/libraries/))

---

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Gerallt_Lloyd_Owen&oldid=15182627"